

YR HYN DDYLECH CHI EI WNEUD OS YDYCH YN CREDU BOD PLENTYN NEU OEDOLYN AGORED I NEWID MEWN PERYGL

Os ydych yn credu bod plentyn mewn perygl dybryd o niwed cysylltwech â Swyddog Amddiffyn Plant Theatr y Sherman, Juila Barry (JB), ar unwaith. (Yn absenoldeb JB, cysylltwech â Sally Shepherd).

Ni ddylech oedi o gwbl cyn cymryd camau brys i amddiffyn plentyn.

Diolch byth, mae'n fwy tebygol eich bod yn poeni neu'n pryderu am les plentyn yn hytrach na'r angen i wneud rhywbeth ar unwaith.

Os ydych yn poeni am les plentyn, peidiwch â chadw hyn i chi'ch hun. Siaradwch ar unwaith â'r Swyddog Amddiffyn Plant a fydd yn ystyried y ffeithiau sydd ar gael cyn penderfynu beth i'w wneud. Os ydych yn dal i boeni, yna fe fydd y Swyddog Amddiffyn Plant yn cyfeirio'r mater at dîm derbyn ac asesu gwasanaethau plant Caerdydd ac yn dweud wrthynt yr hoffent riportio bod plentyn mewn perygl.

Mae'n bosib na fydd eich pryderon yn ymddangos i fod yn ddigon i gyfiawnhau ymehwilio i'r sefyllfa – ond efallai y byddan nhw'n helpu adeiladu darlun, law yn llaw gyda phryderon o ffynonellau eraill, sy'n awgrymu efallai bod plentyn yn cael niwed.

Efallai y bydd y Swyddog Amddiffyn Plant yn gofyn i chi lenwi'r ffurflen digwyddiadau a nodi'ch pryderon yn ysgrifenedig, yng ngeiriau'r person ifanc, neu'r person sydd wedi dweud wrthy'ch am y digwyddiad. Yna, mae'ch cyfrifoldeb chi dros yr achos yn DIWEDDU ar y cam yma. Fe fydd y Swyddog Amddiffyn Plant yn cymryd cyfrifoldeb o'r fan hon. Efallai y byddwch chi ond yn cyfrannu eto os bydd yr achos yn mynd i'r llys, neu os bydd yr heddlu eisiau datganiadau gan dystion – ac yn yr achos hwn ni allwn warantu na fydd yn rhaid i ni ddweud pwy ydych chi.

Os ydych chi'n gweithio mewn ysgol, clwb ieuenctid neu amgylechiadau eraill tu allan i'r Sherman, ond fel un sy'n gyflogedig gan Theatr y Sherman yn gweithio gyda phobl ifanc, dylech ddilyn y canllawiau/gweithdrefn uchod O HYD – cysylltwech â Swyddog Amddiffyn Plant y Sherman sydd â chyfrifoldeb i riportio'r mater i Swyddog Amddiffyn Plant yr ysgol (neu'r ganolfan). Unwaith fyddwch chi wedi riportio'r mater i Swyddog Amddiffyn Plant y Sherman, mae eich cyfrifoldeb yn diweddu, fel uchod.

Canllawiau gan y gwasanaethau cymdeithasol

Os nad oes gennych holl fanylion y plentyn neu'r teulu, yna rydyn ni eisiau clywed gennych o hyd. Ond a wnewch chi nodi a riportio cymaint o wybodaeth â phosib? Fe allai hyn gynnwys:

- y rhesymau dros eich pryderon
- cyfeiriad cartref ac oed neu ddyddiad geni
- enwau, cyfeiriadau ac oed neu ddyddiadau geni aelodau'r teulu ynghyd ag enwau eraill y maen nhw'n cael eu galw
- enwau gweithwyr proffesiynol sy'n gysylltiedig â'r teulu, er enghraifft eu meddyg, ymwelydd iechyd, ysgolion
- unrhyw wybodaeth am ddiogelwch pobl sy'n ymweld â'r teulu (mae gan staff TS ffurflen digwyddiadau i'w llenwi)

Os nad ydych am siarad â'r gwasanaethau cymdeithasol am unrhyw reswm, mae yna sawl person y gallwch chi ddweud wrthynt. Gallech ddweud wrth athro neu athrawes neu rywun yn y gwasanaethau iechyd sy'n adnabod y teulu. Byddai unrhyw un o'r rhain yn gwybod beth i'w wneud gyda'r wybodaeth.

Ydw i'n gallu bod yn ddiennw?

Efallai eich bod yn aelod o staff sy'n gweithio i un o'r asiantaethau dan sylw neu efallai eich bod yn ffrind, yn gymydog neu'n berthynas. Nid yw staff yn gallu bod yn ddiennw, ond fel arall gwnawn bopeth posib i beidio â datgelu pwy ydych chi, waeth a ydych chi'n gofyn i ni wneud hynny ai peidio. Weithiau, efallai y bydd yr wybodaeth yr ydych yn ei rhoi i ni yn datgelu pwy ydych chi.

YR HYN DDYLECH CHI EI WNEUD OS YDYCH YN CREDU BOD PLENTYN NEU OEDOLYN AGORED I NEWID MEWN PERYGL

Ac, am fod rhaid i ni fynd i'r llys weithiau, ni allwn warantu na fydd yn rhaid i ni ddweud pwy ydych chi.

Wrth bwy ddylwn i ddweud?

Fe fydd y Swyddog Amddiffyn Plant yn riportio'ch pryderon i'r Swyddog ar Ddyletswydd yn:

Y Pwynt Cyswllt Plant (ymholiadau newydd/cyfeiriadau)

029 2053 6490 – Llun-Wener 8.30am–5pm

Y Tîm Derbyn ac Asesu (achosion agored)

029 2053 6400 – Llun-Wener 8.30am–5pm

Y Tîm ar Ddyletswydd mewn Argyfwng

029 2044 8570 – tu allan i oriau swyddfa

Mewn argyfwng, os nad oes un o'r uchod ar gael ac rydych yn poeni bod person ifanc mewn perygl dybryd o gael niwed pellach, ac nid yw'r Swyddog Amddiffyn Plant ar gael = FFONIWCH 101 (yr heddlu).

Cyngor Pellach

Os yw ymddygiad unrhyw oedolyn, gan gynnwys y rheiny sy'n gofalu am blant, yn achosi pryder i chi:

- peidiwch ag anwybyddu'ch pryderon
- peidiwch â mynd at y sawl sy'n achosi pryder i drafod y mater
- os ydych yn gweithio gyda phlant, trafodwch eich pryderon gyda'ch rheolwr. Os nad ydych yn teimlo bod hyn yn addas, neu os nad ydych yn hapus â'r ymateb, ffoniwch rhif ffôn y Pwynt Cyswllt Plany 029 2053 6490, neu'r heddlu
- mewn achosion o bryder am ymddygiad cydweithiwr yn y Cyngor, rhaid i weithwyr Cyngor Caerdydd ddilyn y gweithdrefnau sydd wedi eu nodi ym Mholisi Amddiffyn Plant Cyngor Caerdydd CH.410 (honiadau o gamdriniaeth yn erbyn gweithiwr proffesiynol, aelod o staff neu wirfoddolwr sydd mewn cyswllt â phlant)
- mae'n bwysig iawn nad ydych yn anwybyddu'ch amheumon